**Professor Isabel Oliver**
**Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol, GIG Cymru**
**Chief Medical Officer/Medical Director NHS Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

09/12/2025

Annwyl Gyfarwyddwyr Addysg,

Roeddwn i eisiau tynnu eich sylw at y ffaith ein bod ni'n gweld cynnydd sylweddol mewn heintiau ffliw ar draws Cymru. Gall y salwch hwn fod yn ddifrifol iawn i rai plant gan achosi cymhlethdodau fel niwmonia. Rydym eisoes wedi gweld derbyniadau i'r ysbytai y tymor hwn, yn ogystal â chau un ysgol dros dro yn dilyn achosion o salwch tebyg i'r ffliw ymhlith staff a disgyblion.

Brechu yw'r amddiffyniad gorau sydd gennym yn erbyn y ffliw, gyda'r manteision hefyd yn cynnwys bod llai o'r ffliw yn cael ei drosglwyddo yn y gymuned. Mae plant yn chwarae rhan allweddol o ran trosglwyddo'r ffliw, gan gynnwys i'r rhai a allai fod mewn mwy o berygl o gymhlethdodau'r ffliw fel babanod, menywod beichiog a'r henoed. Felly, rwy'n eich annog i wneud popeth y gallwch i sicrhau bod y niferoedd mwyaf posibl yn manteisio ar frechiadau yn yr ysgolion yn eich awdurdod lleol.

Mae pob plentyn ysgol hyd at flwyddyn 11 yn gymwys i gael brechlyn rhag y ffliw. Mae hwn yn frechlyn diogel, di-boen ac effeithiol, sy'n cael ei weinyddu fel chwistrell trwynol. Mae brechiad rhag y ffliw yn cael ei gynnig i blant i helpu i'w hamddiffyn ac i leihau trosglwyddiad i bobl eraill, yn enwedig y rhai mewn grwpiau risg clinigol. Mae brechu hefyd yn dod â manteision i ysgolion, gan gynnwys lleihau'r tebygolrwydd y bydd achosion o'r ffliw mewn ysgolion, a lleihau absenoldeb ymhlith disgyblion a staff.

O ystyried bod tymor y ffliw wedi dechrau'n gynnar eleni, mae angen i ni gymryd camau i sicrhau ein bod yn amddiffyn cymaint o blant â phosibl. Dangosodd y data diweddaraf ar 2 Rhagfyr fod 43.9% o blant ysgolion cynradd a 18.6% o blant ysgolion uwchradd wedi cael brechiad rhag y ffliw. Mae hyn yn llawer is na'r targed o 75%.

Mae gan eich penaethiaid rôl hanfodol i'w chwarae yn llwyddiant y rhaglen ffliw trwy hyrwyddo brechiadau yn eu hysgolion a thrwy sicrhau bod y rhai sy'n gweinyddu'r brechiadau yn gallu gwneud eu gwaith mor effeithlon â phosibl.

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Ffon/Tel: 029 2082 3911
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ
Ebost/Email: PSChiefMedicalOfficer@wales.gsi.gov.uk

Er mwyn cefnogi'r rhaglen ffliw eleni, byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech chi gymryd camau a gofyn i'ch penaethiaid wneud y canlynol:

- Atgoffa rhieni i roi caniatâd ar gyfer clinigau ffliw sydd wedi'u cynllunio cyn diwedd y tymor.

- Cyfeirio rhieni at wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru os yw'r plentyn wedi colli'r cyfle i gael y brechiad, fel y gallant ddarganfod sut arall y gall eu plentyn gael ei frechu.

- Gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr eu bwrdd iechyd lleol i gefnogi unrhyw ymweliadau sydd ar y gweill neu i gynllunio ar gyfer ymweliadau dilynol a chamau lliniaru ehangach yn ôl yr angen.

Diolch yn fawr iawn am eich help a'ch cefnogaeth ar gyfer y rhaglen frechu hon o bwysigrwydd cenedlaethol.

Dymuniadau Gorau,



**Yr Athro Isabel Oliver**
**Prif Swyddog Meddygol Cymru**